*This document is available in English*

Eitem Agenda 7

| | |
|---|---|
| Adroddiad i | **Y Pwyllgor Archwilio** |
| Dyddiad | **16 Mehefin 2025** |
| Swyddog Arweiniol | **Helen MacArthur, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol, Cyllid ac Adnoddau** |
| Swyddog Cyswllt | **Angharad Ellis (MIAA)** |
| Pwnc | **Adroddiad Cynnydd Archwilio Mewnol Mehefin 2025** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am y gwaith a wnaed gan ddarparwyr archwilio mewnol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod), MIAA, ar gyfer blwyddyn ariannol 2024/25 ac am y cyfnod hyd at 31 Mai 2025.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Mae'n ofynnol i'r Awdurdod roi trefniadau ar waith ar gyfer archwilio systemau rheoli. Penodwyd MIAA ym mis Mehefin 2023 i ddarparu gwasanaethau archwilio mewnol i'r Awdurdod.

3 Mae'r adroddiad a gynhwysir yn Atodiad 1 yn rhoi trosolwg o'r gwaith a wnaed yn ystod blwyddyn ariannol 2024/25 yn erbyn y cynllun archwilio mewnol y cytunwyd arno a'r cynnydd hyd at 31 Mai 2025.

4 Mae'r adroddiad a gynhwysir o fewn Atodiad 2 yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd a wnaed wrth weithredu'r argymhellion y cytunwyd arnynt sy'n deillio o adroddiadau blaenorol.

**ARGYMHELLION**

5 Argymhellir bod yr Aelodau'n:

i) Nodi'r gwaith a wnaed gan MIAA yn ystod 2024/25; ac yn
ii) Nodi'r cynnydd a wnaed wrth weithredu'r argymhelliad y cytunwyd arnynt.

## CEFNDIR

6 Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (y Rheoliadau) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod wneud trefniadau priodol ac effeithiol ar gyfer systemau rheoli mewnol. Mae hyn yn cynnwys y trefniadau ar gyfer rheoli risg a rheolaeth ariannol ddigonol ac effeithiol.

7 Mae'r Rheoliadau hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i gynnal archwiliad mewnol digonol ac effeithiol o'r systemau rheoli mewnol, ac mae'n rhaid hysbysu Aelodau'r Awdurdod am ganfyddiadau'r archwiliad. Mae'n ofynnol i'r Awdurdod gymeradwyo'r Datganiad Rheolaeth Fewnol yn flynyddol.

## GWYBODAETH

8 Mae'r adroddiad a gynhwysir yn Atodiad 1 yn rhoi trosolwg o'r gwaith a wnaed yn ystod 2024/25 ac yn cadarnhau bod y cynllun y cytunwyd arno wedi'i gyflawni'n llawn.

9 Mae'r adroddiad a gynhwysir yn Atodiad 2 yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd gweithredu'r argymhellion o adroddiadau blaenorol.

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae gweithredu systemau ariannol a reolir yn gywir yn cefnogi'r gwaith o gyflawni amcanion llesiant yn ogystal â chynaliadwyedd tymor hwy ein gwasanaethau. |
| Cyllideb | Mae sicrwydd ynghylch bodolaeth a gweithrediad rheolaethau mewnol yn cefnogi'r prosesau ar gyfer gosod cyllideb yn effeithiol. |
| Cyfreithiol | Mae trefniant archwilio mewnol effeithiol yn un o ofynion Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 |
| Staffio | Mae'r adolygiad o systemau ariannol allweddol gan gynnwys y gyflogres yn rhoi sicrwydd bod rheolaethau yn bresennol a bod taliadau yn unol â pholisïau a dulliau y cytunwyd arnynt. |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/<br>y Gymraeg | Mae'r arweinydd ymgysylltu o fewn MIAA yn ddwyieithog a bydd yr adroddiadau'n mynd drwy'r prosesau cyfieithu arferol. |
| Risgiau | Mae'r archwiliad mewnol o brosesau ariannol craidd yn cefnogi nodi a rheoli risgiau yn effeithiol. |